Prosiect Gwyrdd
PROJECT GREEN

TROI PROBLEM YN ADNODD

PROSIECT GWYRDD YN SYMUD YMLAEN I GAFFAEL

Beth yw Prosiect Gwyrdd?

Partneriaeth rhwng 5 awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru, Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg yw'r Prosiect Gwyrdd i ddarparu'r ateb cost effeithiol i wastraff gweddilliol ar ôl gwneud y mwyaf o ailgylchu a chompostio'r ym mhob ardal.

Pam bod angen y bartneriaeth hon?

Mae'n rhaid newid y ffordd o reoli gwastraff yng Nghymru, ac nid yw'n amgylcheddol nac yn economaidd ymarferol i barhau i gladdu gwastraff gweddilliol mewn safleoedd tirlenwi. Mae Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyfarwyddeb Tirlenwi'r UE yn cyfyngu ar y swm o wastraff y gellir ei dirlenwi ac mae angen canfod ateb arall. Ewch i www.prosiectgwyrdd.co.uk i weld yr opsiynau posibl sydd ar gael.

Ble fyddai'r cyfleuster?

Mae'r bartneriaeth yn rhagweld y cynigir nifer o safleoedd dan berchnogaeth breifat fel rhan o ddatrysiadau cynigwyr, gan fod nifer o gynigwyr sydd â diddordeb yn y contract hwn wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer safleoedd yn yr ardal Prosiect Gwyrdd. Yn ogystal mae'r bartneriaeth yn disgwyl cynnig Safle Opsiynol ar gyfer cynigwyr yn Tatton Road yng Nghasnewydd, y gellir ei ddatblygu i ddarparu cyfleuster trin gwastraff. Nid yw hyn yn golygu mai dyma'r safle dewisedig, bydd y bartneriaeth yn cynnig safle opsiynol i gynigwyr ei ystyried, i gynyddu'r gystadleuaeth yn y farchnad, fel bod rhagor o gynigwyr yn cael gallu rhoi cynnig am y contract hwn.

Pryd fydd ateb?

Mae'r Bartneriaeth wedi cyflwyno eu gofynion i'r farchnad ym mis Tachwedd 2009, i ganfod yr ateb amgylcheddol, cost effeithiol ac ymarferol gorau i wastraff gweddilliol. Mae'r bartneriaeth yn niwtral o ran technoleg a bydd yn asesu'r holl gynigion a wneir yn erbyn meini prawf cytunedig. Disgwylir i'r broses gaffael gymryd o leiaf ddwy flynedd i sicrhau bod cyfleuster yn cael ei adeiladu a'i weithredu yn 2015.

Am y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect hwn, ewch i www.prosiectgwyrdd.co.uk a chyfeirio unrhyw gwestiynau i info@prosiectgwyrdd.co.uk

I ddileu eich tanysgrifiad e-bostiwch - info@prosiectgwyrdd.co.uk

Partneriath ar gyfer Rheoli Gwastraff Cynaliadwy
A Partnership for Sustainable Waste Management